**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd 4ydd Chwefror 2013 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr: | |
| A M Jones (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W I Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); R Fairhead (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G W Griffiths (Uwch Reolwr Datblygu); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau). [Roedd K Finch (Trysorydd) yn bresennol ar gyfer y drafodaeth ar brosiect gorsaf dân ac ambiwlans Wrecsam.]

YN ARSYLWI: Y Cynghorydd J R Skelland (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr: | |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Croesawyd y Cyng. Richard Davies i'w gyfarfod cyntaf gan y Cadeirydd. Mae'r Cyng. Davies wedi dod yn lle'r Cyng. Alice Jones fel y cynrychiolydd Annibynnol o Gyngor Sir Ddinbych.

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc gyngor ynghylch y mater o Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cymryd rhan yn y drafodaeth ar brosiect tân ac ambiwlans Wrecsam o dan ran II o'r agenda. Rhaid i'r Aelodau ddatgan fod ganddynt fuddiant personol o leiaf, a phetai unrhyw drafodaeth ynghylch prynu tir, byddai angen i'r Aelodau ddatgan buddiant rhagfarnol a phersonol.

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19EG TACHWEDD 2012

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Tachwedd eu cymeradwyo yn gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 9.1 Atal Tân – Rhoddodd y PST wybod i'r Aelodau fod y gwahoddiad i Brif Weithredwr Atal Tân ar y gweill.

4 CYFLWYNIAD AM YR ADOLYGIAD O OFAL TÂN MEWN ARDALOEDD GWLEDIG

4.1 Rhoddodd y PSTC Simmons gyflwyniad i'r Aelodau am yr adolygiad o ofal tân mewn ardaloedd gwledig. Bydd yr adolygiad o ofal tân mewn ardaloedd gwledig yn ddarn pwysig o waith i Weithgor y Cynllun Gwella wrth iddo ystyried y materion ac amcanion y dyfodol o ran y gyllideb. Roedd y mater o ddarparu gofal tân mewn ardaloedd gwledig wedi bod yn amlwg yn yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar yr amcanion gwella ar gyfer 2013/14.

4.2 Mae diffoddwyr tân y system dyletswydd ar gael yn ôl y galw (RDS) yn 66 % o staff gweithredol y Gwasanaeth, a nhw sy'n gweithredu'r rhan fwyaf o beiriannau rheng flaen y Gwasanaeth (83%). Felly, yn y bôn, gwasanaeth ar gael yn ôl y galw, a hwnnw'n cael ei gefnogi gan staff amser cyflawn, yw Gogledd Cymru, a dyna pam fod cynaliadwyedd y system mor arwyddocaol i'r Gwasanaeth.

4.3 Esboniodd y PSTC Simmons fod disgwyl i ddiffoddwyr tân y system RDS fod ar gael hyd at 120 oriau yr wythnos i gael eu cydnabod yn rhai '*semi-retained*' a 120 o oriau yr wythnos i fod yn ddiffoddwr tân '*fully-retained*'. Bydd diffoddwyr tân y system RDS yn derbyn tâl cadw ac yng Ngogledd Cymru fe enillodd y diffoddwyr tân hyn ar gyfartaledd £7,000 yn 2013/14. Nodwyd bod y trefniadau cytundebol cyfredol yn gaeth i'r unigolyn, y prif gyflogwr a'r Gwasanaeth, ond bod y rhain yn cael eu gosod ar lefel Prydain gan y Cyd-Gyngor ac na ellid eu newid. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith nad oes unrhyw wahaniaeth yng nghyfarpar, hyfforddiant a datblygiad, a lleoliad diffoddwyr tân yn rhinwedd eu statws o ran contract.

4.4 Cynhaliwyd sawl adolygiad o'r system RDS yn y DU er 1997 ond ni chafwyd unrhyw ateb gwirioneddol. Y prif faterion sy'n peri pryder yw recriwtio, cynaliadwyedd ac argaeledd, yn enwedig yn ystod y dydd. Fel rhan o'i strategaeth ariannol, mae'r Awdurdod, gyda chydweithrediad Undeb yr FBU, wedi newid ei system gylchrestru dyletswydd amser cyflawn, gan olygu bod angen 22 yn llai o swyddi. Er mwyn osgoi diswyddiadau gorfodol, cafodd cronfa adnoddau'r ochr weithredol ei chreu gyda'r 22 o ddiffoddwyr tân ar gael i sicrhau bod gofal brys ar gael ymhob rhan o'r Gogledd.

4.5 Yr her yn y dyfodol yw darparu gwasanaeth ymateb sy'n gynaliadwy er gwaethaf yr heriau cymdeithasol, economaidd a demograffig. Sefydlwyd y system RDS yn 1947 pan oedd pobl yn byw ac yn gweithio yn yr un ardal, nid felly mae hi erbyn hyn ac felly mae'n anodd denu ymgeiswyr addas sydd ar gael i'w defnyddio drwy alw arnynt. O ganlyniad i'r sefyllfa economaidd sydd ohoni, a chyllideb gyfyngedig o'r herwydd, mae'n amhosibl gwneud y swydd yn fwy deniadol o safbwynt ariannol.

4.6 I gloi, dywedodd y PSTC Simmons mai rhan o'r gwaith i'w wneud ar yr adolygiad o ofal tân mewn ardaloedd gwledig fydd dylanwadu ar y drafodaeth ar amodau cenedlaethol y gwasanaeth i ganiatáu contractau llai caeth a chaniatáu bod yn fwy hyblyg o ran lleoli staff. Ond yn y cyfamser bydd angen creu atebion yn y tymor canolig a chytuno arnynt er mwyn ymdrin â gofal tân gwledig.

4.7 Roedd y Cyng. P R Lewis yn cytuno â'r casgliad, a gofynnodd a oedd ddiffoddwyr tân y system RDS yn rhoi rhesymau penodol dros ymadael. Esboniodd y PST ei fod yn gweld pob ymadawiad, ac mai'r rheswm i'r mwyafrif llethol yw newid yn y prif gyflogaeth. O'r blaen, mae'r Gwasanaeth wedi ceisio gwneud addasiadau ar gyfer y rhai a oedd eisiau newid eu hargaeledd oherwydd ymrwymiadau gwaith, ond yn ddiweddar mae'r Gwasanaeth wedi mynd ati'n fwy cadarn i ddelio â'r unigolion sy'n newid patrymau, ac mewn ambell achos mae wedi gorfod gwrthod ceisiadau i newid argaeledd.

4.8 Gan fod hon yn broblem drwy Brydain, gofynnodd y Cyng. Lewis a fyddai'n bosibl cynnig math gwahanol o gontract er mwyn denu mwy o ymgeiswyr, a fyddai, o bosibl, yn gymorth i lenwi'r bylchau. Dywedodd y Cyng. Pemberton fod y gydnabyddiaeth ariannol yn fach iawn am yr amser yr oedd yn rhaid ei ymrwymo i'r system. Esboniwyd bod yr amodau gwasanaeth cyfredol yn cael eu gosod ar lefel Prydain, felly yr unig gontractau a ganiateir yw'r rhai hyd at 120 o oriau neu 120 o oriau, ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd denu pobl a fyddai, o bosibl, yn fodlon darparu gofal am lai o oriau.

4.9 Yn ôl y DBST, gan fod y Gwasanaeth erbyn hyn yn fwy llwyddiannus wrth atal tanau roedd llai o ddigwyddiadau yn ystod flwyddyn a llai o alwadau allan ac mae hyn wedi cael effaith ar faint o arian y gall diffoddwyr tân y system RDS eu hawlio yn ychwanegol at y ffi cadw. At hynny, dywedodd y PST fod staff y system RDS yn wastad wedi bod yn gefnogol iawn o'r agenda atal tanau, er bod llai o alwadau allan.

4.10 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

5 MONITRO PERFFORMIAD

5.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am weithgarwch y Gwasanaeth a monitro perfformiad o'i gymharu ag amcanion gwella yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2012.

5.2 Bu gostyngiad yn nifer gyffredinol y tanau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2011/12, ond bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael anafiadau yn y tanau hyn. Fodd bynnag, llwyddodd mwy o bobl i ddianc yn ddianaf a heb gymorth a gellid priodoli hyn, yn rhannol, i'r ffaith fod mwy o bobl yn cael rhybudd cynnar gan larwm mwg sy'n gweithio, a bod ganddynt gynllun dianc wedi ei ymarfer ac wedi ei deilwra i'w hangenion.

5.3 Cafodd 31% o'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref eu cwblhau yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni, ac mae hynny'n gymorth i grwpiau risg uchel i aros yn ddiogel yn eu cartref. Roedd y Gwasanaeth felly wedi mynd y tu hwnt i'w darged ei hun, sef 25% ar gyfer atgyfeiriadau o'r fath.

5.4 Bu gostyngiad yn nifer gyffredinol y digwyddiadau yr aethpwyd atynt, a gostyngiad o 30% yng nghyfanswm nifer y tanau. Bu'r gostyngiad mwyaf yn nifer y tanau eilaidd, a gellir priodoli hyn i'r ymgyrch lwyddiannus ar losgi glaswellt a hefyd y tywydd gwlyb a oedd wedi golygu llai o danau glaswellt damweiniol a bwriadol. Roedd staff o'r Gwasanaeth wedi bod mewn marchnadoedd ffermwyr yn siarad â thirfeddiannwyr ac amaethwyr gan ofyn iddynt roi gwybod i'r Gwasanaeth cyn cychwyn llosgi glaswellt.

5.5 Mae'r Gwasanaeth yn mynd at lai o wrthdrawiadau ar y ffyrdd ar ôl datblygu partneriaeth fwy soffistigedig gyda phartneriaid, sef ceisir rhagor o wybodaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod angen presenoldeb. Fodd bynnag, mae nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig eraill wedi cynyddu oherwydd y llifogydd a achosodd 59% o gynnydd yn y 'digwyddiadau gwasanaeth arbennig heblaw am wrthdrawiadau ar y ffyrdd'.

5.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi crynodeb a dadansoddiad o'r ymatebion i ymgynghoriad yr Awdurdod ar ei Amcanion Gwella drafft ar gyfer 2013-14, ac argymell newidiadau i Gynllun Gwella drafft 2013-14 i'w gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn i'w gymeradwyo'n derfynol yn ei gyfarfod nesaf ym Mawrth 2013.

6.2 Esboniodd y DBST fod dogfen ymgynghorol y cynllun gwella a gymeradwywyd gan y cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Hydref 2012 wedi ei chyhoeddi at ddiben ymgynghori dros gyfnod o ddeuddeg wythnos o 15fed Hydref 2012 hyd at 7fed Ionawr 2013. Defnyddiwyd arolwg ar-lein am y tro cyntaf, bu hynny'n eithaf effeithiol a bydd yn dod yn rhan o'r strategaeth ymgynghori yn y dyfodol. Daeth oddeutu 170 o wahanol sylwadau, safbwyntiau a chwestiynau i law yn ystod yr ymgynghoriad.

6.3 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cafodd gwaith ei wneud gan y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru i ddatblygu un targed cyffredin ar gyfer trin galwadau yn y tair Ystafell Reoli. Gan fod cytundeb erbyn hyn ar y targed hwn ar gyfer Cymru gyfan, mae gan yr Aelodau ddewis cael y targed mwy diweddar hwn ar gyfer trin galwadau yn lle targed drafft Gogledd Cymru ar gyfer trin galwadau.

6.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo drafft terfynol o Gynllun Gwella 2013-14 yn seiliedig ar yr un cynigion a oedd yn y ddogfen ddrafft ymgynghorol, ond yn lle targed drafft Gogledd Cymru ar gyfer trin galwadau ceir y targed newydd Cymru gyfan ar gyfer trin galwadau. Caiff y Cynllun Gwella drafft terfynol ar gyfer 2013-14 ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2013.**

7 AELODAETH GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA

7.1 Gofynnwyd yr Aelodau gytuno ar aelodaeth gweithgor y Cynllun Gwella.

7.2 Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y bydd y gweithgor yn ymdrin â'r gwaith manwl mewn perthynas â phroses gynllunio a chyllideb yr Awdurdod cyn ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol a'r Awdurdod llawn wedi hynny ar gyfer ei gymeradwyo'n derfynol. Mae'r Awdurdod ar fin cychwyn ar gyfnod newydd o dair blynedd o ran y strategaeth ariannol, felly bydd y gweithgor yn llunio'r cynllun hirdymor ar gyfer yr Awdurdod gan sicrhau ei fod yn gynaliadwy ac yn gallu darparu adnoddau i waith y Gwasanaeth yn y dyfodol.

7.3 Oherwydd pwysigrwydd y gwaith i'w wneud gan y gweithgor, gwahoddwyd yr Aelodau i gytuno bod holl aelodau'r Panel Gweithredol yn dod yn aelodau o'r gweithgor.

7.4 **PENDERFYNWYD cytuno bod holl aelodau'r Panel Gweithredol yn dod yn aelodau o Weithgor y Cynllun Gwella.**

8 ADBORTH Y COMISIYNYDD AR ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y GYMRAEG

8.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr adborth a ddaeth i law gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch Adroddiad Monitro Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y Gymraeg 2011-12.

8.2 Roedd y Comisiynydd yn croesawu llawer o agweddau ar waith yr Awdurdod mewn perthynas â'r Gymraeg, ac roedd yn arbennig o awyddus i weld y Gwasanaeth yn cynnal y gyfran o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a nifer y plant sy'n derbyn cyngor diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.3 Mae'r Comisiynydd wedi dweud y bydd y Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol, sef 2010-13, yn cael ei ymestyn hyd oni fydd y safonau statudol newydd sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn dod i rym ymhen rhyw ddwy flynedd.

8.4 Gofynnodd y Cyng. P R Lewis a oedd y gofyniad i gyrraedd lefel 2 yn y Gymraeg wedi cael effaith ar recriwtio diffoddwyr tân rhan amser. Cadarnhaodd y PSTC Simmons nad dyna'r sefyllfa, a bod y rhai sy'n ymuno â'r Gwasanaeth yn cael cynnig pob cymorth posibl i sicrhau eu bod yn pasio'r prawf lefel 2 gan ei bod yn gyfrifoldeb ar y Gwasanaeth i roi cymaint o gymorth a chefnogaeth ag yr oedd ei angen. Fodd bynnag, roedd y PSTC yn cydnabod nad oedd modd gwybod pwy na wnaeth gais oherwydd y Gymraeg. Hefyd, esboniodd y Prif Swyddog Tân y gellir dad-ddethol ymgeiswyr ar sail methu'r prawf llythrennedd Saesneg ond nid y prawf Cymraeg.

8.5 Llongyfarchwyd y Gwasanaeth gan y Cyng. M Ll Davies am gael adroddiad canmoliaethus gan y Comisinydd.

8.6 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg ac ymrwymiad y Gwasanaeth i sicrhau ei fod yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn.**

RHAN II

Roedd yr adroddiad i'w drafod yn rhan II yn ymwneud â'r prosiect sy'n mynd rhagddo ar orsaf dân ac ambiwlans Wrecsam. Oherwydd materion cytundebol a materion eraill a allai achosi pobl i ddatgelu gwybodaeth niweidiol i'r broses, roedd angen cynnal y drafodaeth yn rhan II.

9 PROSIECT TÂN AC ACHUB WRECSAM

9.1 Darparwyd yr adroddiad i roi'r diweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiad arfaethedig yr orsaf dân ac ambiwlans yn Wrecsam.

9.2 Ailfynegodd y Dirprwy Glerc ei gyngor ynghylch y cod ymddygiad a bod yn rhaid i Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddatgan buddiant personol o leiaf, a phetai unrhyw drafodaeth ynghylch prynu tir, byddai angen i'r Aelodau ddatgan buddiant rhagfarnol a phersonol. Fodd bynnag, fe allai'r Aelodau gymryd rhan lawn yn y drafodaeth. Gallai'r Cyng. Skelland, a oedd yno yn arsylwi ac fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, gymryd rhan gyda chytundeb y Cadeirydd. Nodwyd y cyngor, ac felly datganodd y Cyng. P Pemberton, y Cyng. A Evans a'r Cyng. J R Skelland fuddiant personol yn yr adroddiad i'w drafod.

9.3 **PENDERFYNWYD argymell i'r cyfarfod o'r Awdurdod llawn ar 18fed Mawrth 2013:**

**(i) bod yr Awdurdod yn tynnu o'r prosiect oni bai ei fod yn gallu dod ag ef o fewn y gyllideb ac yn gallu darparu gorsaf sy'n diwallu anghenion yr Awdurdod o fewn cyfnod pendant, a'i fod yn cychwyn gweithio ar ddewis amgen hyfyw, sef ailddatblygu'r safle ar Ffordd Bradley neu ryw safle ychwanegol addas sydd ar gael yn ardal Wrecsam;**

**(ii) bod archwilydd allanol yn cael ei benodi i gynnal archwiliad o'r prosiect hyd yn hyn.**

9.4 **Nododd yr Aelodau bod yr opsiwn hwn yn golygu risg ariannol a pherygl i enw da yr Awdurdod yn seiliedig ar y ffactorau y tynnwyd sylw atynt ym mharagraffau 14 – 16 o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel Gweithredol.**